



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut i edrych ar ôl eich ci

Cyflwyniad i'r Cod Ymarfer er Lles Cŵn

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Adran 1: Yr amgylchedd	4
Adran 2: Deiet	4
Adran 3: Ymddygiad	5
Adran 4: Cwmni	5
Adran 5: Iechyd	6

Cyflwyniad

Mae bod yn berchen ar gi a gofalu amdano yn hwyl ac yn rhywbeth sy'n rhoi llawer o bleser i rywun ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad hirdymor yn ariannol ac o ran gofal. Chi sy'n rheoli bywyd eich ci; eich cyfrifoldeb chi felly yw sicrhau eich bod yn diwallu ei anghenion, waeth beth yw'r amgylchiadau. O dan y ddeddf, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i ofalu am ei les. Mae hynny'n cynnwys gwneud yn siŵr:

- bod gan eich ci le addas i fyw ynddo;
- bod eich ci'n cael deiet iach;
- bod eich ci'n cael ymddwyn yn naturiol;
- bod eich ci'n cael ei gadw gydag anifeiliaid eraill neu ar ei ben ei hun a;
- eich bod yn amddiffyn eich ci rhan poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich ci, byddwch yn sylwi ar nodweddion cyfarwydd. Mae'n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau yn ei ymddygiad, gan y gallen nhw fod yn arwydd bod eich ci mewn gofid, neu'n dost/sâl, neu nad ydych yn diwallu ei anghenion mewn rhyw ffordd arall.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r pethau pwysig y dylech eu gwybod ac yn dangos ichi ble yn y Cod Ymarfer er Lles Cŵn y cewch chi'r manylion.

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen y Cod Ymarfer cyflawn i ddeall yn llwyr anghenion lles eich ci a'r hyn sy'n rhaid ichi ei wneud o dan y gyfraith.

Adran 1: Amgylchedd

Dylai'ch ci gael lle addas i fyw ynddo.

Mae'r adran hon yn berthnasol i gŵn sy'n byw tu mewn a thu allan

Cysgu a gorffwys

Dylech sicrhau bod lle gorffwys cyfforddus, sych, tawel a glân, heb ddrafftiau ar gael i'ch ci y mae'n gallu mynd iddo bob amser gyda gwely glân a lle y bydd yn teimlo'n ddiogel.

Lle diogel

Pan fyddwch chi ddim gyda'ch ci, gwnewch yn siŵr fod ganddo ddigon i'w wneud, digon o le ac nad oes modd iddo ddianc neu grwydro. Dylai'r ffens fod yn ddigon diogel i rwystro anifeiliaid rhag dod i mewn a chadw ymwelwyr annisgwyl, gan gynnwys lladron, draw.

Adran 2: Deiet

Dylai'ch ci gael deiet iach a chytbwys sy'n rhoi'r maeth sydd ei angen arno.

Gofalwch fod gan eich ci ddŵr yfed ffres a glân i'w yfed bob amser.

Pa mor aml y dylech chi fwydo'ch ci?

Rhaid bwydo'ch ci o leiaf unwaith y dydd, ond yn gyffredinol, rydyn ni'n eich cynghori i'w fwydo ddwywaith y dydd.

Peidiwch ag aflonyddu ar gi sy'n bwyta.

Hylendid

Rhan bwysig o ddarparu amgylchedd addas yw gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel a glân. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw ddiheintydd a ddefnyddir yn ddiogel i anifeiliaid anwes. Nid yn unig mae hyn yn gwneud yr amgylchedd yn lanach, ond mae hefyd yn osgoi clefydau rhag lledu.

Peryglon

Gofalwch na all eich ci ddod i gysylltiad â pheryglon, fel sylweddau a phlanhigion a allai fod yn niweidiol..

Teithio

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cludo'ch ci'n ddiogel ac yn gyfforddus (Adran 1.19 y Cod). **Peidiwch** â gadael eich ci ar ei ben ei hun yn y car **gan y gallai hynny beryglu'i fywyd o dan rai amgylchiadau.**

Pwysau iach

Ni ddylai'ch ci fod yn rhy dew nac yn rhy denau. Yn ddelfrydol, dylech allu teimlo ychydig ar ei asennau a gweld ei wasg yn glir wrth edrych i lawr arno (Adran 2.8 y Cod).

Anghenion eraill o ran deiet eich ci

Bydd angen deiet gwahanol ar rai cŵn – holwch eich milfeddyg.

Adran 3: Ymddygiad

Dylai'ch ci allu ymddwyn yn naturiol.

Hyfforddi trwy wobrwyo

Mae angen amser ac ymdrech i hyfforddi'ch ci'n iawn. Dylech ei hyfforddi trwy ei wobrwyo bob tro (Adran 3.6-3.8 y Cod).

Gall hyfforddiant negyddol sy'n seiliedig ar gosbi achosi dioddefaint di-angen a dryswch i gŵn. Mae defnyddio unrhyw goler allai roi sioc i gi wedi ei wahardd yng Nghymru.

Ymarfer corff

Mae'n bwysig iawn bod eich ci yn cael digon o ymarfer corff. Os nad ydych yn gwybod pa ymarfer corff sydd ei angen ar eich ci, gofynnwch am farn milfeddyg proffesiynol.

Adran 4: Cwmni

Gofalwch fod eich ci'n cael cymysgu yn ôl ei angen.

Perthynas gyda cŵn, pobl eraill ac anifeiliaid

Mae ci yn anifail cymdeithasol ac mae angen cwmni pobl, cŵn neu anifeiliaid eraill arno. Mae ar gi bach angen profiadau positif o gymysgu gyda chŵn eraill, pobl ac anifeiliaid eraill i dyfu'n gi hapus, normal a ffein (Adran 3.15 y Cod).

Mae'n bosibl i unrhyw gi frathu o dan amgylchiadau penodol. Felly, peidiwch byth â gadael eich ci heb ei oruchwyllo yng nghwmni plant neu anifeiliaid eraill.

Sylwch sut mae'ch ci yn ymateb i gŵn, anifeiliaid a phobl eraill ac ymatebwch chithau yn ôl y gofyn. Gofalwch fod pawb sy'n ymwneud â'ch ci yn gwneud hynny mewn ffordd garedig, addfwyn a chyson.

Ymddygiad

Cadwch olwg fanwl ar eich ci am unrhyw newid yn ei ymddygiad, a gofynnwch am gyngor eich milfeddyg os y gwelwch unrhyw newidiadau mewn ymddygiad, neu arwyddion o ofn, gofid neu strès.

Gwneud ei fusnes

Mae dysgu ci ble a phryd i wneud ei fusnes yn rhan bwysig o hyfforddiant ci sy'n rhannu ei gartref â phobl. Gofalwch fod eich ci'n cael mynd yn rheolaidd ac aml i le addas i wneud ei fusnes.

Cymdeithasoli

Mae cael cymdeithasu â phobl, cŵn ac anifeiliaid eraill yn rhan bwysig iawn o addysg gynnar ci. Mae yna gyfnod pwysig yn gynnar yn ei fywyd, rhwng 3 ac 14 wythnos oed, pan fydd ci bach yn dysgu ar ei orau. Gall y cyfnod bara wedi hynny weithiau, a dylai profiadau barhau drwy gydol ei fywyd.

Pan fyddwch oddi cartref

Ni ddylech adael eich ci ar ei ben ei hunan fel arfer am fwy nag ychydig oriau yn ystod y dydd rhag iddo fynd i boeni neu ddiflasu ac efallai dechrau cyfarth a gwneud niwed i bethau.

Bydd angen i chi drefnu i rywun ofalu am eich ci pan fyddwch oddi cartref.

Nifer anifeiliaid

Mae angen gofal mawr ar nifer fawr o anifeiliaid a pheidiwch â chadw mwy o gŵn nag y gallwch ofalu amdany'n nhw yn effeithlon.

Adran 5: Iechyd

Rhaid ichi wneud yn siŵr bod eich ci mewn iechyd da a'i ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Gofal iechyd

Dylech archwilio'ch ci yn rheolaidd am arwyddion o anaf a salwch. Rhaid i gi gael ei drin ar unwaith gan filfeddyg os yw'n cael anaf neu'n dost/sâl. Bydd eich milfeddyg yn gallu rhoi cyngor ichi hefyd ar sut i ofalu am iechyd eich ci, fel ei niwtro, ei frechu a rheoli ei baraseitiaid (e.e. chwain a llyngyr), yn ogystal ag ar unrhyw broblemau iechyd sydd ganddo.

Cribo a golchi

Gofalwch fod blew eich ci yn cael ei gribo'n iawn. Efallai y bydd arbenigwr yn gallu'ch cyngori sut i ofalu am ei flew.

Tagio

Peidiwch â gadael i'ch ci grwydro; rhaid i bob ci wisgo coler sy'n ei ffitio a thag adnabod gyda'ch enw a'ch cyfeiriad arno pan fydd mewn lle cyhoeddus a rhaid bod ganddo ficrosglodyn yn ei groen (er bod eithriadau i'r rheol hon).

Bridio a Niwtro

Fel perchennog ci, dylech sicrhau bod gennych yr holl ffeithiau cyn penderfynu p'un ai i fridio neu i niwtro'ch ci. Wedi'r cyfan, yn ogystal â bod yn gyfrifol am y penderfyniad ei hunan, bydd rhaid ichi hefyd ddelio â'r canlyniadau. Gofynnwch i'ch milfeddyg am gyngor.

Prynu Ci

Caiff iechyd a lles eich ci ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau gan gynnwys yr amgylchiadau y cafodd ei fagu a'r amgylcheddau blaenorol y bu ynddynt. Ni chaiff pob ci ei fagu gyda'r gofal priodol dros eu lles neu eu hiechyd corfforol neu ymddygiadol. Mae'n well cael cyngor gan filfeddyg neu sefydliad perthnasol arall ynghylch ble i gael eich ci. Gweler adran 5.6 y Cod.

Deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar gŵn

Yn ogystal â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 mae nifer o gyfreithiau eraill yn effeithio ar y ffordd rydych yn cadw'ch ci. Yn Atodiad 1 y Cod, fe welwch grynodedeb o'r rhai sy'n debygol o fod o ddiddordeb i berchennog ci.